

» Mae Cymru oll mewn cyfnod o gyfyngiadau symud (lefel rhybudd 4). [Beth sydd angen ichi wneud ar lefel rhybudd 4.](#)

Mae'r DU wedi gadael yr UE. [Ewch i Paratoi Cymru i weld sut y gall hyn effeithio arnoch chi.](#)

[Hafan](#) > [Hysbysiadau](#) > [Holl hysbysiadau](#) >

Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ariannol a statws ffioedd cartref i fyfyrwyr syn dilyn cyrsiau addysg uwch yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2021/22 ar ôl ymadael â'r UE

DATGANIAD CABINET

# Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ariannol a statws ffioedd cartref i fyfyrwyr syn dilyn cyrsiau addysg uwch yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2021/22 ar ôl ymadael â'r UE

**Kirsty Williams, AS, y Gweinidog Addysg**

Cyhoeddwyd  
gyntaf:  
6 Ionawr 2021

Diweddarwyd  
ddiwethaf:  
6 Ionawr 2021

Ym mis Awst, rhoddais wybod i'r Aelodau y byddai Llywodraeth Cymru, ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn rhoi'r gorau i ddarparu cymorth i wladolion yr UE ac aelodau eu teulu sy'n astudio yng Nghymru. Gwnaeth gwledydd eraill y DU gyhoeddiadau tebyg.

Rhannu'r dudalen hon: [Twitter](#) [Facebook](#) [@](#)

Bydd myfyrwyr sydd eisoes wedi dechrau ar eu cyrsiau neu a fydd yn dechrau arnynt cyn 1 Awst 2021 yn parhau i fod yn gymwys am gymorth a statws ffioedd cartref drwy gydol eu cwrs.

Mae'n bleser gen i gadarnhau nawr y bydd Llywodraeth Cymru, o 1 Awst 2021, yn amodol ar wneud y ddeddfwriaeth, yn darparu cymorth i wladolion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) ac o'r Swistir sydd â hawliau dinasyddion o dan y gwahanol gytundebau ymadael, aelodau o deuluoedd pobl o Ogledd Iwerddon, plant gwladolion y Swistir, plant gweithwyr o Dwrci, gwladolion y DU sy'n byw yn yr AEE a'r Swistir, gwladolion y DU a'r UE sy'n breswylwyr yn Gibraltar, a dinasyddion Prydain ac Iwerddon o dan drefniant yr Ardal Deithio Gyffredin. Bydd y cymorth i rai grwpiau yn gyfyngedig i gyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Ionawr 2028. Rhoddir statws ffioedd cartref i bob grŵp yng Nghymru. Yn ogystal, bydd gwladolion y DU sy'n byw yn nhiriogaethau tramor Prydain yn gymwys am statws ffioedd cartref, yn ogystal â, tan 1 Ionawr 2028, wladolion y DU sy'n byw yn nhiriogaethau tramor yr UE. Yn unol â'r arfer, bydd yn rhaid bodloni'r amodau preswyllo. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth yn fuan.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Os bydd yr Aelodau am imi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ar ôl i'r Senedd ailymgynnull, byddwn yn hapus i wneud hynny.

**Cyhoeddwyd gyntaf**

6 Ionawr 2021

**Diweddarwyd ddiwethaf**

6 Ionawr 2021

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

[Rhannu'r dudalen hon](#)

[Nôl i dop y dudalen](#)